



Atodiad E – Historic England

Cyflwyniad

Mae'r Atodiad hwn yn ategol at Ran 1 o Nodyn Cyngor 11 yr Arolygiaeth Gynllunio. Mae Rhan 1 yn cwmpasu llawer o'r pwyntiau rhyngweithio sy'n berthnasol i'r Arolygiaeth Gynllunio a Historic England. Fodd bynnag, mae rhai pwyntiau penodol nad aed i'r afael â nhw neu y mae angen eu hegluro yn ystyriaeth yn yr Atodiad hwn.

Bydd yr Atodiad hwn yn cael ei adolygu'n gyson i sicrhau ei fod yn parhau'n berthnasol ac yn ddiweddar, er enghraifft, oherwydd newidiadau sefydliadol neu ddeddfwriaethol yn y dyfodol sy'n effeithio ar Historic England a / neu yr Arolygiaeth Gynllunio.

Un o ddibenion yr Atodiad hwn yw darparu cyngor i ymgeiswyr er mwyn gwella ymgysylltiad rhwng ymgeiswyr a Historic England. Mae'r Arolygiaeth Gynllunio a Historic England yn annog ymgysylltiad uniongyrchol rhwng ymgeiswyr a Historic England ac ar adeg ddigon cynnar yn y cam cyn gwneud cais.

Rôl Statudol Historic England

Historic England yw'r Comisiwn Adeiladau Hanesyddol a Henebion ar gyfer Lloegr, a sefydlwyd gan Ddeddf Treftadaeth Genedlaethol 1983. Ei nod yw ehangu mynediad y cyhoedd i dreftadaeth ddiwylliannol Lloegr, cynyddu dealltwriaeth a gwerthfawrogiad pobl o'r gorffennol, a gwarchod a gwella'r amgylchedd hanesyddol. Mae hyn yn cynnwys pob agwedd ar yr amgylchedd sy'n deillio o'r rhyngweithio rhwng pobl a lleoedd drwy amser, gan gynnwys yr holl olion ffisegol sydd wedi goroesi o weithgarwch pobl yn y gorffennol, boed yn weledol, yn gladdedig neu'n suddedig, a fflora wedi'u tirlunio a'u plannu neu'u rheoli.

Mae ganddo ddyletswyddau penodol o dan Ddeddf 1983¹ i:

- (a) sicrhau cadwraeth henebion hynafol ac adeiladau hanesyddol yn Lloegr.
- (b) hyrwyddo cadwraeth a gwella cymeriad a golwg ardaloedd cadwraeth yn Lloegr, a
- (c) hyrwyddo mwynhad y cyhoedd o, a hyrwyddo'u gwybodaeth am, henebion hynafol ac adeiladau hanesyddol yn Lloegr, a'u cadwraeth.

Mae "heneb hynafol" yn y cyd-destun hwn nid yn unig yn cynnwys henebion hynafol cofrestredig, ond hefyd olion cerbydau, llongau, awyrennau neu adeileddau symudol eraill hefyd yr ystyria Historic England eu bod o ddiddordeb hanesyddol, pensaernïol, traddodiadol, artistig neu archaeolegol.

Mae Historic England yn ymdrin â cheisiadau am ganiatâd Heneb Gofrestredig ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae hefyd yn gweinyddu swyddogaethau trwyddedu'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â llongddrylliadau dynodedig².

Mae Historic England yn Gorff Cyhoeddus Anadrannol Gweithredol a noddir gan yr Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, a llofnodir ei gytundeb cyllido gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Mae'n gweithio mewn partneriaeth ag adrannau llywodraeth ganolog, awdurdodau lleol, cyrff gwirfoddol a'r sector preifat.

¹ Adran 33 NHA 1983 fel y'i diwygiwyd

² O dan a.1 Deddf Diogelu Llongddrylliadau 1973



Cwmpas Daeryddol Cyfrifoldebau Historic England

Ar y tir

Mae cyfrifoldebau Historic England am ddiogelu'r amgylchedd hanesyddol (gan gynnwys diogelu lleoliad yr asedau treftadaeth) yn cwmpasu Lloegr gyfan.

Ar y môr

Mae cyfrifoldebau'n cynnwys archaeoleg danddwr yn ardal Lloegr o Fôr Tiriogaethol y DU, o dan Ddeddf Treftadaeth Genedlaethol 1983 (fel y'i diwygiwyd)³.

Gall Historic England hefyd ddarparu cyngor, gwasanaethau a gwybodaeth yn ymwneud â henebion 'estron' y tu allan i gyfyngiad Môr Tiriogaethol y DU tua'r môr, o dan Ddeddf Treftadaeth Genedlaethol 1983 (fel y'i diwygiwyd), sy'n agos at Loegr ac nad ydynt yn ddarostyngedig i gyfrifoldebau unrhyw Weinyddiaethau Datganoledig.

Bydd Historic England yn ymgynghorai mewn perthynas â'r Cynlluniau Morol a baratoir gan y Sefydliad Rheoli Morol o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, a fydd yn amlinellu'r modd y caiff Datganiad Polisi Morol y DU ei weithredu yn nyfroedd glannau a dyfroedd môr mawr Lloegr. Cynigiwn gyngor ar gyfer cynlluniau a rhaglenni yn amodol ar Asesiad Amgylcheddol Strategol (2001/42/EC) a'r prosiectau hynny sy'n destun Asesiad Effeithiau Amgylcheddol (85/337/EEC, fel y'i diwygiwyd) gan fod y ddwy gyfarwydddeb hyn yn cynnwys asesiad o 'dreftadaeth ddiwylliannol'. Hefyd, darparwn gyngor i'r Sefydliad Rheoli Morol fel rhan o'r broses Trwyddedu Morol (darperir ar ei chyfer o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009). Ar gyfer cynlluniau/rhaglenni a phrosiectau yn y rhan honno o Ardal Forol y DU sydd y tu hwnt i gyfyngiadau tua'r môr y môr tiriogaethol i Loegr, ac nad ydynt yn ddarostyngedig i gyfrifoldebau unrhyw Weinyddiaeth Ddatganoledig, caiff unrhyw gyngor a gynnigir gan Historic England ei roi ar sail 'ddi-ymrwymiad'.

Cyfundrefn Deddf Gynllunio 2008

Roedd Deddf Gynllunio 2008 (Deddf 2008) yn sefydlu'r weithdrefn ar gyfer gwneud cais am, archwilio a phenderfynu ceisiadau am ganiatâd datblygu ar gyfer Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIPau)⁴.

Bydd rhoi caniatâd datblygu yn dileu'r angen am rai caniatadau ar wahân, gan gynnwys y rheiny o dan Ddeddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 a Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. Fodd bynnag, rhaid i unrhyw ganiatadau sy'n angenrheidiol o dan Ddeddf Diogelu Llongddrylliadau 1973 gael eu cyfeirio at yr Adran Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, a rhaid i'r rheiny o dan Ddeddf Diogelu Olion Milwrol 1986 gael eu cyfeirio at y Weinyddiaeth Amddiffyn.

Rôl Historic England o dan gyfundrefn Deddf 2008

O ystyried eu graddfa, bydd y rhan fwyaf o brosiectau ar y tir sydd o fewn cwmpas y gyfundrefn NSIP yn cael rhyw effaith ar yr amgylchedd hanesyddol.

Historic England yw cynghorydd statudol Llywodraeth y DU ac mae'n ymgynghorai statudol ar bob agwedd ar yr amgylchedd hanesyddol. Mae ei gyfrifoldebau'n cynnwys bod yn ymgynghorai ar yr holl geisiadau arfaethedig ar gyfer NSIPau sy'n debygol o effeithio ar dir yn Lloegr.

Mae rolau Historic England yn ystod y camau amrywiol o dan gyfundrefn Deddf 2008 wedi'u hamlinellu'n fanylach isod.

³ Diwygiwyd gan Ddeddf Treftadaeth Genedlaethol 2002, a.1

⁴ Rhan 3, Deddf 2008.



Cyfundrefn Deddf 2008 – rôl Historic England fel ymgynghorai statudol

Mae'r cam cyn gwneud cais o dan gyfundrefn Deddf 2008 yn galluogi ymgeisydd i nodi materion perthnasol, ymgynghori ar eu cynllun, rhoi cyhoeddusrwydd iddo a'i fireinio, a gobeithio, datrys unrhyw faterion sy'n weddill cyn bod cais yn cael ei gyflwyno i'r Arolygiaeth Gynllunio.

Rhaid ymgynghori â Historic England ar unrhyw geisiadau arfaethedig am ganiatâd datblygu sy'n debygol o effeithio ar dir yn Lloegr⁵.

Ar gyfer datblygiadau arfaethedig wedi'u lleoli yng Nghymru neu Loegr sy'n debygol o fod â goblygiadau trawsffiniol, bydd yn bwysig ymgynghori'n gynnar â Cadw a Chyngor Cefn Gwlad Cymru ar y cyd â Historic England. Ar gyfer datblygiadau arfaethedig wedi'u lleoli yn Lloegr sy'n debygol o fod â goblygiadau trawsffiniol yn yr Alban, bydd yn bwysig ymgynghori'n gynnar â Historic Scotland a Scottish Natural Heritage ar y cyd â Historic England.

Byddai Historic England yn dymuno derbyn y wybodaeth ganlynol yn y cam cyn gwneud cais fel rhan o ymgynghoriad yr ymgeisydd:-

- cynllun/cynlluniau o faint a graddfa ddigonol fel bod modd nodi'r lleoliad(au) arfaethedig i'w ddatblygu;
- disgrifiad manwl o'r prosiect;
- amlinelliad o unrhyw opsiynau prosiect, yn cynnwys unrhyw ddewisiadau eraill i'r opsiynau hynny sydd eisoes yn cael eu hystyried;
- gwybodaeth ddigonol o arolygon morol (geoffisegol a geotechnegol) wedi'u hategu gan adolygiad o adnoddau gwybodaeth desg am yr amgylchedd hanesyddol er mwyn galluogi asesu effeithiau'r cynigion ar ei feysydd diddordeb;
- unrhyw ddatganiad amgylcheddol drafft neu Wybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol (fel y gall EH ystyried materion treftadaeth, archaeoleg, tirwedd, effaith weledol) (gweler "AEA" isod hefyd);
- y Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft (yn cynnwys unrhyw Drwydded Forol Dybiedig)
- y terfyn amser ar gyfer gorfod derbyn ymatebion;
- gwybodaeth am pryd y bwriedir i gais gael ei gyflwyno i'r Arolygiaeth Gynllunio

Mae gofyniad statudol ar ymgeiswyr i ymgynghori'n ffurfiol â chyrrff fel Historic England yn y cam cyn gwneud cais. Rhaid i ymgeiswyr roi o leiaf 28 diwrnod i ymateb i'r cyfryw ymgynghoriad⁶; wedyn mae'n ofynnol i ymgeiswyr ystyried unrhyw 'ymateb perthnasol' y gall ymgynghoreion eu rhoi⁷ cyn y terfyn amser. Nid oes rhaid i ymgeiswyr ystyried unrhyw ymatebion a dderbynnir ar ôl i'r terfyn amser fynd heibio.

Pan fydd cais wedi'i dderbyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol, mae Historic England yn 'barti statudol'⁸ yn awtomatig. Fel y cyfryw, caiff ei wahodd gan yr Awdurdod Archwilio i'r cyfarfod rhagarweiniol, ac os yw Historic England yn dymuno, gall ddod yn barti â buddiant, ac felly cyfranogi yn y broses archwilio.

⁵ Adran 42, Deddf 2008; Rheoliadau Seilwaith Cynllunio (Ceisiadau: Ffurflenni a Gweithdrefnau Rhagnodedig) 2009, Rheoliadau 3 ac 8(1) a'r Atodlen

⁶ Adran 45, Deddf 2008

⁷ Adran 49, Deddf 2008

⁸ a.88(3A) Deddf 2008 a Rheoliad 3 Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Partion â Buddiant) 2010 fel y'u diwygiwyd.



The Planning Inspectorate

Gall Historic England ddod yn barti â buddiant naill ai drwy wneud sylw perthnasol yn fuan ar ôl i gais gael ei dderbyn pan gaiff ei hysbysu gan yr ymgeisydd ei fod wedi'i dderbyn a'r terfyn amser ar gyfer gorfod gwneud unrhyw sylw perthnasol⁹ i'r Arolygiaeth Gynllunio neu drwy hysbysu'r Awdurdod Archwilio yn ysgrifenedig ei fod yn dymuno bod yn barti â buddiant yn dilyn y cyfarfod rhagarweiniol.

Dylai ymgeiswyr yn ymgynghori'n ddigon cynnar â Historic England yn ystod y cam cyn gwneud cais leihau'r risg y bydd angen gwybodaeth ychwanegol pan fydd cais wedi'i wneud i'r Arolygiaeth Gynllunio, a allai fel arall arwain at oedi o ran archwilio'r cais. Dylai'r holl faterion perthnasol fod wedi'u datrys cyn gwneud cais, os oes modd.

Bydd natur Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol yn mynnu ymateb amlddisgyblaethol gan Historic England. Wrth baratoi ymateb i ymgynghoriadau, gall fod angen cynnwys amrywiaeth o gydweithwyr arbenigol. Oherwydd yr angen hwnnw i gydlynu'r gwaith o baratoi unrhyw ymateb, ac am y bydd cydweithwyr hefyd yn ymdrin â llwyth gwaith NSIPau eraill, yn ogystal â cheisiadau cynllunio sy'n dod o dan drothwyau 'o arwyddocâd cenedlaethol', dylai ymgeiswyr ofyn am derfynau amser rhesymol ar gyfer ymateb, lle nad yw derfynau amser statudol yn cael eu pennu.

Bydd Historic England bob amser yn ceisio darparu sylwadau mor brydlon ag y bo modd, ond ni fyddai'n rhesymol disgwyl ymateb i ymholiad cyn pen wythnos o'i anfon. Fel arfer bydd angen derfynau amser hwy ar gynigion mwy cymhleth sy'n mynnu ymatebion manwl.

Bydd y gwaith paratoadol canlynol yn helpu lleihau oedi o ran Historic England yn ymateb i ymgynghoriadau:

- Dylai ymgeiswyr ddarparu amserlen arfaethedig ar gyfer cais ar gyfnod cynnar o'r gwaith cyn gwneud cais. Dylai hwn amlinellu pryd y byddant yn mynd at Historic England i gael sylwadau. Deallir y bydd angen i amserlen o'r fath fod yn hyblyg, ond bydd syniad felly yn galluogi Historic England i reoli ei adnoddau'n fwy effeithiol a sicrhau blaenoriaethu priodol.
- Dylai ymgeiswyr ddarparu prif gyswllt ar gyfer pob prosiect fel bo'n berthnasol ar gyfer unrhyw elfennau daearol a/neu forol. Bydd hyn yn cynorthwyo cyfathrebu rhwng ymgeiswyr a Historic England. Bydd yn fuddiol i'r cyswllt hwnnw gyfarfod â'r arweinydd prosiect perthnasol o Historic England, naill ai ar gyfer prosiect daearol neu forol, mor gynnar â phosibl, er mwyn trafod manylion y prosiect a'i broses.

Bydd yn fuddiol hefyd, i bawb sy'n gysylltiedig, gael trafodaethau cyn gwneud cais wedi'u cofnodi'n ffurfiol, a gyda phob parti'n cytuno ar y cofnodion. Bydd hyn yn sicrhau nad yw problemau'n codi o ganlyniad i gamddealltwriaethau blaenorol.

AEA

Mae'r Gyfarwyddeb AEA (Erthygl 3) yn datgan y dylai AEA gynnwys effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol prosiect ar faterion sy'n cynnwys "tirwedd, asedau perthnasol a'r dreftadaeth ddiwylliannol". Dylid ymgynghori â Historic England ynglŷn â'r effeithiau hyn yn gynnar yn y broses cyn gwneud cais.

Mae Historic England yn fodlon edrych ar ddrafft datganiad amgylcheddol cyfan yr ymgeisydd, neu ddogfen arall a baratoir fel eu Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol.

⁹ Adran 56, Deddf 2008



Lle mae NSIP arfaethedig yn ddatblygiad AEA, a gofynnwyd am farn gwmpasu gan yr Ysgrifennydd Gwladol, mae Historic England yn ymgynghorai statudol y mae'n rhaid ymgynghori ag ef cyn i farn gwmpasu gael ei mabwysiadu mewn perthynas â'r holl geisiadau sy'n debygol o effeithio ar dir yn Lloegr. Nodwyd Historic England hefyd fel corff yr ymgynghorir ag ef cyn bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn mabwysiadu barn gwmpasu ar gyfer yr holl geisiadau NSIP arfaethedig yn Lloegr lle mae unrhyw elfen alltraeth. Gweler Nodyn Cyngor 3 yr Arolygiaeth Gynllunio am fanylion pellach.

Er mai dim ond mewn perthynas â cheisiadau sy'n debygol o effeithio ar dir yn Lloegr y mae'n ofynnol i ymgeiswyr ymgynghori â Historic England fel rhan o'u hymgyngoriad a.42, mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn annog datblygwyr i ymgynghori mor eang ac yr ystyriant yn briodol yn ystod y cyfnod cyn gwneud cais, er enghraifft, wrth baratoi eu datganiad amgylcheddol a'u Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft.

Adroddiadau, cyngor ac arweiniad perthnasol

Mae Historic England yn darparu ystod eang o arweiniad ar ei weithrediadau a'r modd y mae'n gwneud penderfyniadau. Mae'r egwyddorion sy'n sail i'w gyngor wedi'u hamlinellu yn:

- *Conservation Principles* <http://www.historicengland.org.uk/advice/constructive-conservation/conservation-principles/>
- *Our Planning Charter* <http://historicengland.org.uk/services-skills/our-planning-services/charter/>

Mae Historic England yn cynhyrchu arweiniad hefyd ar amrywiaeth o faterion yn ymwneud â diogelu a rheoli'r amgylchedd hanesyddol, ac maent ar gael ar wefan [Historic England](http://www.historicengland.org.uk). Yn benodol, mae arweiniad perthnasol yn cynnwys:

- *Planning* - <http://www.historicengland.org.uk/advice/planning/>
- *Setting and Views* - <http://www.historicengland.org.uk/advice/planning/setting-and-views/>
- *Strategic environmental assessment, sustainability appraisal and the historic environment* - <http://www.historicengland.org.uk/images-books/publications/strategic-envirom-assessment-sustainability-appraisal-historic-environment/>

Mae ffynonellau arweiniad eraill yn cynnwys:

Cyd-bwyllgor Polisi Archaeolegol Morol (2006) *Code of Practice for Seabed Development*, cyhoeddwyd gan Ystad y Goron

Wessex Archaeology (2007) *Historic Environment Guidance for the Offshore Renewable Energy Sector*, cyhoeddwyd gan COWRIE

Oxford Archaeology (2008) *Guidance for the Assessment of Cumulative Impacts on the Historic Environment from Offshore Renewable Energy*, cyhoeddwyd gan COWRIE

Ystad y Goron (2010) *Model Clauses for Archaeological Written Schemes of Investigation: offshore renewables projects*



Ystad y Goron (2010) *Protocol for Archaeological Discoveries: offshore renewables projects*

EMU (2011) *Offshore Geotechnical Investigations and Historic Environment Analysis: Guidance for the Renewable Energy Sector*, cyhoeddwyd gan COWRIE

Manylion Cyswllt Historic England

Caiff y gwaith o gydlynu ymgysylltiad Historic England â'r Arolygiaeth Gynllunio ar gyfer Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol ei gefnogi'n ganolog. Bydd ymwneud â phrosiectau unigol yn cael ei drefnu drwy swyddfa leol briodol Historic England neu Uned Cynllunio Morol Historic England ar gyfer prosiectau alltraeth. Bydd y swyddog arweiniol ar gyfer prosiect yn cael ei nodi ar sail achos wrth achos, gan ddibynnu ar natur a lleoliad y cynnig, gan gynnwys, gyda chytundeb y Cyfarwyddwr Cynllunio perthnasol, nodi swyddfa leol arweiniol neu'r Uned Cynllunio Morol pan fydd cynigion yn croesi ffiniau swyddfeydd daearyddol. Os nad yw ymgeiswyr yn siŵr â phwy ddylent fod yn cysylltu, dylent ddefnyddio'r manylion isod hyd nes eu bod wedi pennu swyddog arweiniol ar gyfer y cynnig dan sylw.

Gwefan: <http://www.historicengland.org.uk/>

E-bost: shane.gould@HistoricEngland.org.uk

Shane Gould

Uwch Gynghorydd Llywodraeth Leol a Seilwaith Cenedlaethol
Tîm Cynghori'r Llywodraeth Historic England.

Ffôn: 0207 973 3841